# Cofnodion

## Pwyllgor Safonau

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Ebrill 2021

Amser: 5.30 pm

Bresennol: Cynghorwyr Davies, D Wilcox, P Hourahine, H Britton, A Mitchell, Watkins and Worthington

Gareth Price (Head of Law & Regulation)

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Dim

2 **Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Annibynnol**

Cafodd Mr Mitchell ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
Cafodd Mr Watkins ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

3 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

4 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**Cytunwyd:**
Cymeradwyo’r Cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

5 **Materion yn codi**

Dim

6 **Cynllunio Olyniaeth - diweddariad ar benodi Aelodau Annibynnol**

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y Pwyllgor wedi hysbysebu dwy swydd wag ar y wefan ac mewn papurau newydd lleol a chafwyd 14 cais gyda 5 o bobl ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Argymhellodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio i'r panel ddewis dau ymgeisydd addas mewn cyfweliad yn hytrach na mynd trwy ail broses recriwtio. Byddai'r ymgeisydd cyntaf a benodir yn disodli rôl Mr Westwood a byddai'r ail ymgeisydd yn cael ei benodi dros dro felly byddai'n gallu dechrau yn ei swydd ym mis Hydref pan oedd cyfnod Ms Britton yn y swydd wedi dod i ben.

7 **Côd Ymddygiad Gweithwyr**

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cod Ymddygiad Gweithwyr wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yn flaenorol. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y bu sawl blwyddyn ers cyflwyno'r Cod Ymddygiad a'r diwygiad diwethaf oedd 2018/19. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio y bu archwiliad corfforaethol diweddar, a gododd fod angen diweddaru'r Cod Ymddygiad Gweithwyr o ran newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae AD wedi diweddaru'r cod a chynhaliwyd ymgynghoriadau â staff ac Undebau Llafur.
Mae hefyd wedi'i gyflwyno i'r Cyd-grŵp Cyswllt Gweithwyr ac mae wedi'i gytuno gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau fel y gall y Pwyllgor argymell yn ffurfiol ei fabwysiadu i'r Cyngor llawn. Yna byddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei gynnwys fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.
Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y Cod Ymddygiad diwygiedig wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau oherwydd rôl y Pwyllgor o ran monitro'r Cod Ymddygiad Aelodau a sut y mae'n cysylltu â chysylltiadau swyddogion.
Dywedodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn teimlo ei bod yn bwysig iawn bod gweithwyr y Cyngor yn cael eu cynnwys a'u cefnogi yn yr un modd a dyna pam mae'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd mor hanfodol ac nad oedd unrhyw ardaloedd llwyd. Dywedodd y Cynghorydd Wilcox hefyd y byddai'r ddeddfwriaeth yn helpu gweithwyr y Cyngor i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a theimlo'n gryfach a bod croeso mawr i'r ddeddfwriaeth.
Teimlai Dr Worthington ei bod yn gyfres gyflawn a chynhwysfawr o safonau.
Argymhellodd y Cadeirydd i Bennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio adrodd yn ôl i AD ei bod yn ddogfen dda iawn.

**Cytunwyd:**
Cymeradwyodd y Pwyllgor Safonau y Cod Ymddygiad Gweithwyr diwygiedig ac argymhellodd ei fabwysiadu i'r Cyngor.

8 **Cod Ymddygiad - Canllawiau Diwygiedig**

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y canllawiau wedi'u dosbarthu'n flaenorol. Roedd yn gyfnod byr iawn o ran yr ymgynghoriad a dyma'r canllawiau diwygiedig yr oedd yr Ombwdsmon yn ymgynghori arnynt, o ran y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Dinas a Chynghorwyr Cymuned.
Oherwydd bod y cyfnod ymgynghori wedi cau cyn y cyfarfod, cafodd ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth. Fe'i dosbarthwyd hefyd i holl Glercod y Cynghorau Cymuned ond ni ddaeth unrhyw sylwadau yn ôl oddi wrthynt.

Nid yw'r canllawiau wedi newid llawer o ran sylwedd ond roedd yna fwy o enghreifftiau ymarferol wedi'u cynnwys ar y diwedd yn seiliedig ar achosion blaenorol, a oedd yn ganllaw defnyddiol i Gynghorau o ran ymarferoldeb y Cod.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi edrych ar rai o'r enghreifftiau a chytunodd ei fod yn ddefnyddiol iawn. Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfan yn clymu'n dda gyda'i gilydd bod Cod Ymddygiad bellach i weithwyr ac i Gynghorwyr a Chynghorau Cymuned.

Holodd y Cynghorydd Wilcox a oedd gan y clercod unrhyw awdurdod i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y Cod Ymddygiad. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio pan anfonwyd y Cod Ymddygiad allan, gofynnwyd i'r Clercod ymgynghori â'u Cynghorwyr Cymuned i gyflwyno unrhyw sylwadau oedd ganddynt, ond ni chafwyd dim. Tybiwyd bod y Cynghorau Cymuned yn fodlon â'r canllawiau.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod yr adolygiad diwethaf o God Ymddygiad Cymru yn 2016 a chwblhawyd y Cod Ymddygiad gwreiddiol yn 2008. Roedd Llywodraeth Cymru yn edrych eto ar y Cod Ymddygiad a phe bai adolygiad yn cael ei gynnal, byddai'n cael ei adolygu cyn mis Mai nesaf 2022 ar gyfer Etholiadau'r Cyngor lleol. Ategwyd mai canllawiau ar y cod presennol fel y mae ar hyn o bryd oedd hyn ac felly gall newid rhwng nawr a mis Mai nesaf 2022.

Gofynnodd y Cynghorydd Hourihane a fyddai gan unrhyw god ymddygiad newydd sancsiynau gorfodi i'w gosod ar rai Cynghorau Cymuned a fethodd â chofrestru ar gyfer y Cod. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio mai cod gorfodol oedd hwn sy'n berthnasol yn awtomatig i gynghorau cymuned a bod sancsiynau eisoes am beidio â chydymffurfio.

Nodwyd yr adroddiad.

## 9 **Cwynion**

Adroddodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod y ddwy gŵyn i'r Ombwdsmon a adroddwyd yn flaenorol yn dal i fynd rhagddynt ac nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a ddylid ymchwilio iddynt.
Ers y cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd 8 cwyn arall i'r Ombwdsmon, 1 yn ymwneud â Chynghorydd Dinas a'r 7 arall yn gwynion am gynghorwyr cymuned.
Nid oedd y gŵyn yn erbyn y cynghorydd Dinas wedi ei derbyn ar gyfer ymchwiliad gan ei bod yn ymwneud â methiant honedig i ymateb i e-byst, ac nid oedd hyn yn torri'r Cod.
Roedd tri o'r cwynion yn erbyn cynghorau cymuned wedi eu gwrthod hefyd. Ni ymchwiliwyd i un gŵyn gan nad oedd tystiolaeth o dorri'r cod mewn cysylltiad â sut y cadeiriwyd cyfarfod y cyngor cymuned. Nid oedd dau gŵyn wedi eu derbyn ar gyfer ymchwiliad, er bod tystiolaeth o ddiffyg parch, oherwydd nad oedd yr Ombwdsmon yn teimlo bod y toriad yn ddigon difrifol ac nad oedd er budd y cyhoedd i ymchwilio. Fodd bynnag, byddai'r ombwdsmon yn ysgrifennu at y ddau gynghorydd cymuned dan sylw i'w hatgoffa o'u dyletswyddau o dan y Cod i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill a pheidio â dwyn anfri ar eu swydd fel cynghorwyr.
Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod nifer o faterion yn ymwneud â chynghorau cymuned a bod sawl clerc wedi ymddiswyddo.

Dywedodd John Davies fod CC Llangadwaladr Trefesgob wedi gwneud sawl cwyn ychydig fisoedd yn ôl ond nad oeddent wedi clywed dim. Pan aeth y clerc ar drywydd hyn, dywedwyd wrthynt fod y cwynion wedi mynd i'r blwch e-bost sbam. Gofynnodd a oes modd gwneud unrhyw beth am hyn. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio fod ffurflen gwyno ar-lein ar wefan yr Ombwdsmon y gellid ei chwblhau a'i chyflwyno'n electronig. Yna caiff y cwynion eu cydnabod a rhoddir cyfeirnod unigryw iddynt. Roedd hefyd yn credu mai dyma oedd cwyn y cyngor cymuned a adroddwyd y tro diwethaf ac, felly, roedd wedi ei derbyn a'i chofnodi gan yr Ombwdsmon. Fodd bynnag, pe bai hon yn gŵyn wahanol, dylai fod wedi ei chydnabod a chael cyfeirnod. Dylai'r clerc fynd ar drywydd hyn i wirio.
Gofynnodd John Davies a oedd unrhyw amserlenni penodol i'r Ombwdsmon ymateb.
Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio nad oedd unrhyw amserlenni penodol, er y dylai achwynwyr glywed gan yr Ombwdsmon o fewn 6-8 wythnos ynghylch a fydd ymchwiliad i'r gŵyn. Fodd bynnag, os oedd ymchwiliad yn mynd i gael ei ymchwilio'n llawn, gall y broses honno gymryd hyd at 9-12 mis i'w chwblhau.

Gofynnodd John Davies a oedd unrhyw ffordd o herio penderfyniad ombwdsmon, gan fod rhai achwynwyr yn anhapus nad oedd ymchwiliad i'w cwynion. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio nad oedd hawl pellach i herio a'r Ombwdsmon oedd y canolwr statudol terfynol ynghylch a ddylid ymchwilio i gŵyn. Yr unig ffordd o herio ei benderfyniad fyddai drwy achos adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol ac roedd hyn yn ddrud iawn.

10 **Unrhyw Fater Arall**

Dim

11 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

15 Gorffennaf 2021 am 5.30pm

12 **Gwe-ddarllediad**

Pwyllgor Safonau, 15 Ebrill 2021 - YouTube